

# Cynhwysiant Digidol: **Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol**

**Gorffennaf 2024**

# Haniaethol

Yn y ddogfen hon, bydd Cwmpas yn tynnu ar ei brofiad o gyflawni prosiectau cynhwysiant digidol yng Nghymru i nodi ei weledigaeth ar gyfer dyfodol cynhwysiant digidol yng Nghymru. Bydd yn cymryd dull strategol at sicrhau cenedl sy'n gynhwysol ac yn hyderus yn ddigidol. Mae gan dechnolegau digidol y potensial i drawsnewid economi a chymunedau Cymru, gan ganiatáu i bobl fod yn fwy cysylltiedig ac arloesol nag erioed. Fodd bynnag, mae ganddo hefyd y potensial i waethygu anghydraddoldebau a gadael pobl ar ôl, gan roi hyd yn oed fwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn y tymor hir. O ganlyniad, dylid rhoi sylw i gynhwysiant digidol a buddsoddi ynddo ar bob cam o ddatblygiad polisi. Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn amlinellu ein camau nesaf i greu cenedl sy'n wirioneddol gynhwysol yn ddigidol.



cwmpas

## Cynnwys


Cyflwyniad 4

Beth yw Cynhwysiant Digidol? 4

Cynhwysiant Digidol yng Nghymru 5

Prosiectau cynhwysiant digidol Cwmpas 5

Tirwedd Polisi 8

Data: Cynhwysiant Digidol yng Nghymru 10

Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru 14

Beth ydym ni wedi'i ddysgu? 16

Beth nesaf? 22

cwmpas

# Cyflwyniad

## Beth yw Cynhwysiant Digidol?

Mae cynhwysiant digidol yn ymwneud â'r gallu i gyrchu a defnyddio'r rhyngrwyd ac ymwneud â thechnoleg ddigidol, yn hyderus ac yn ddiogel, yn ôl yr angen a phan ddymunir gwneud hynny. Mae'r rhain yn ofynion sylfaenol i bobl gymryd rhan mewn cymdeithas ac economi ddigidol. Wrth i fwy o'n bywydau symud i'r byd ar-lein ac wrth i wasanaethau fynd yn ddigidol, mae'n bwysicach nag erioed bod pawb yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys.

Mae amrywiaeth o ffactorau'n effeithio ar b'un a yw unigolyn yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd fel y mae'n dymuno neu fel y mae ei angen. Mae'r pedwar prif rwystr i gyfranogiad wedi'u nodi fel cost (data yn ogystal â dyfeisiau), cysylltedd, cymhelliant a sgiliau. Mae rhai pobl yn ein cymunedau yn llawer mwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol nag eraill. Gwyddom fod cydberthynas gref rhwng bod yn hŷn, incwm isel a chyrhaeddiad addysgol isel ag allgáu digidol, anfantais gymdeithasol, ac anghydraddoldebau iechyd.



# Cynhwysiant Digidol yng Nghymru

## Prosiectau cynhwysiant digidol Cwmpas

Mae Cwmpas yn asiantaeth ddatblygu sy'n gweithio dros newid cadarnhaol, yng Nghymru a ledled y DU. Rydym yn gydweithfa, ac yn canolbwyntio ar adeiladu economi decach, wyrddach a chymdeithas fwy cyfartal, lle daw pobl a'r blaned yn gyntaf.

Rydym yn cyflwyno toreth o brosiectau effeithiol sy'n gysylltiedig â thai, gofal cymdeithasol, cynhwysiant digidol a chymorth busnes, sy'n anelu at gynyddu mynediad, tegwch, amrywiaeth a chyfranogiad. Rydym yn gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd trwy weithio gyda phobl a sefydliadau i weithredu er lles.

Mae Cwmpas yn arweinydd digidol. Rydym yn deall yr agenda cynhwysiant digidol, y cyd-destun Cymreig, a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw. Mae gennym brofiad o weithio gyda phob bwrdd iechyd, pob awdurdod lleol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), Gofal Cymdeithasol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sefydliadau trydydd sector cenedlaethol mawr, sefydliadau trydydd sector lleol a grwpiau cymunedol, yn ogystal â darpariaethau uniongyrchol gyda dinasyddion.

Mae ein harbenigedd yn y maes hwn wedi arwain at randdeiliaid o wledydd datganoledig – gan gynnwys y Scottish Council for Voluntary Organisations (SCVO), Connecting Scotland, Llywodraeth yr Alban, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a Community Foundation Northern Ireland – ceisio ein cyngor a'n harweiniad, Mae wedi arwain at ddatblygu cyfnewidfeydd dysgu a rhannu cyngor ac arweiniad ynghylch mentrau cynhwysiant digidol. Yn benodol ein profiad a'n harbenigedd yng Nghymru fel arweinwyr ym maes Cynhwysiant Digidol ac Iechyd.

Mae gan Cwmpas enw da fel arweinydd digidol yng Nghymru o gyflawni mentrau cynhwysiant digidol ledled y wlad yn llwyddiannus ers 2006, gan gynnwys mentrau blaenllaw a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cymunedau@Ei Gilydd, Cymunedau 2.0, Cymunedau Digidol Cymru, a'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles. Mae Cwmpas hefyd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu ymyriadau uniongyrchol mewn cymunedau fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gyda Hyder Digidol Sir Ddinbych a Hyder Digidol Powys. Fel sefydliad, rydym wedi gweithredu yn y maes cynhwysiant digidol yng Nghymru a'i yrru ymlaen ers bron i ddau ddegawd.

## Llinell Amser Cynhwysiant Digidol Cwmpas

Mae'r llinell amser hon yn dangos y datblygiadau digidol allweddol dros y 18 mlynedd diwethaf y mae Cwmpas wedi bod yn darparu gweithgarwch cynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos momentwm y newid gyda thechnoleg a chysylltedd ynghyd â ffigurau a gymerwyd o arolwg cenedlaethol Cymru a Dadansoddiad cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru:

| | 2007 | 2010 | 2013 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion 16+ oed sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol | 39% | 34% | 21% | 19% | 15% | 11% | 10% | 7% | 7% |

### 2006-2008

**Cymunedau yn Un**

**Nod:** Cefnogi cynhwysiant digidol unigolion a chymunedau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, drwy weithio gyda a darparu cyllid grant i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

**2007:** Lansiad cyntaf Apple iPhone

**2008:** Lansiad cyntaf Ffôn Android

**2009:** Lansiad 4G gyda chyflymder cyfartalog o 12.5 Mbps

### 2009-2015

**Cymunedau 2.0**

**Nod:** Newidiodd y rhaglen hon yn sylweddol yn ystod ei hoes gan ei bod yn ymestyn o ranbarthau Cymru a'r Cymoedd i gynnwys Cymru gyfan. Yn yr ail gam, roedd pwyslais mwy ar weithio'n uniongyrchol gydag unigolion buddiolwyr.

**2010:** Lansiad iPad cyntaf

**2010:** Lansiad Instagram

**2011:** Lansiad Chromebook

**2012:** Google yn lansio Google Now

### 2015-2019

**Cymunedau Digidol Cymru**

**Nod:** Mabwysiadodd y rhaglen hon fodel mwy anuniongyrchol na'i rhagflaenwyr. Fe ganolbwyntiodd ar weithio mewn partneriaeth ag eraill sefydliadau i gyflwyno Gweithgaredd Cynhwysiant Digidol.

**2016:** Amazon yn lansio 'Echo Dot' yn gyhoeddus. Google yn lansio 'Google Home'

**2016:** Lansiad TikTok

**2018:** Lansiad rhith-wirionedd annibynnol 'Oculus Go'

### 2019-2025

**Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol Iechyd a Lles**

**Nod:** Mae'r rhaglen hon yn parhau ar y Model Cascade o gyflwyno blaenorol. Nod y rhaglen o 2024 ymlaen yw sicrhau perchnogaeth Cynhwysiant Digidol gan randdeiliaid a sefydliadau, gan wreiddio a Phrif-ffrydio'r agenda.

**Hyder Digidol Sir Ddinbych (2024)**
**Hyder Digidol Powys (2024)**

**Nod:** Cefnogi dinasyddion i gael mynediad at wasanaethau hanfodol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, i sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad pellach o sgiliau a hyder digidol.

**2019:** Lansiad 5G gyda chyflymder cyfartalog o 169.46 Mbps

**2022:** Lansiad Deallusrwydd Artiffisial Generadu 'ChatGPT'

### 2025 Ymlaen

Nid yw'r gweithgaredd ar gyfer 2025 ymlaen yn hysbys, ond yr hyn a wyddom yw ein bod mewn perygl o adael pobl ar ôl gyda chyfradd y newid, y trawsnewid a'r cynnydd.

*2007 and 2010 - Digital Inclusion: Analysis Package https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/110823-digital-inclusion-analysis-package-en.pdf
**2013 Onwards - National Survey for Wales National Survey for Wales | GOV.WALES

Heb fuddsoddiad priodol mewn cynhwysiant digidol, nid yw'r achos busnes dros drawsnewid digidol yn adio i fyny. Gwyddom mai nifer anghymesur o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau. Os na fyddwn yn dod â phawb gyda ni ar y daith i wasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol, bydd angen i ni ddyblygu gwasanaethau neu bydd pobl yn disgyn drwy'r bylchau – gan arwain at lesiant gwaeth a mwy o gostau yn y tymor hir.

Mae systemau iechyd yn cynyddu wrth symud tuag at ddigidol, gyda rhaglenni fel Ap GIG Cymru, cofnodion Mamolaeth Digidol, ac offer llesiant ehangach yn cael eu datblygu'n ddigidol. Os na chaiff sylw, mae anghydraddoldebau digidol a chymdeithasol presennol mewn perygl o waethygu anghydraddoldebau iechyd ymhellach, a gallai hyn arwain at raniad iechyd digidol a deddf gofal gwrthgyfartal digidol.



## Tirwedd Polisi


### Strategaeth Ddigidol i Gymru

Roedd y Strategaeth Ddigidol i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2021, yn nodi "gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mabwysiadu'r digidol ledled Cymru", gan geisio datblygu gwasanaethau cyhoeddus modern ac effeithlon a busnesau arloesol a chydnerth. Cynhwysiant digidol oedd yr ail o chwe chenhadaeth a nodwyd, a oedd â'r nod o "[r]oi'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion". Canlyniadau bwriadedig y genhadaeth oedd:

- bydd llai o bobl yn cael eu hallgáu'n ddigidol
- bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth a hyder wrth ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol a'u defnyddio
- bydd pobl yn gwybod ble i gael cymorth i ymgysylltu'n ddigidol
- bydd sefydliadau'n dylunio eu gwasanaethau'n briodol oherwydd eu bod yn cydnabod y gall diffyg hyder digidol fod yn rhwystr i bobl ymgysylltu'n ddigidol
- gall pawb gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a'u defnyddio, naill ai'n ddigidol neu drwy sianeli eraill
- mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan sefydliadau ar draws sectorau yng Nghymru

Roedd y drydedd genhadaeth yn canolbwyntio ar Sgiliau Digidol, gyda'r nod o "greu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd". Ei chanlyniadau bwriadedig oedd:

- bydd pobl a busnesau yn ddigidol hyderus ac yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd y gall technolegau digidol eu cynnig
- bydd pobl ifanc yn ddigidol gymwys gyda rhagolygon da ar gyfer swyddi gwerth chweil
- mae gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector y sgiliau i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr a chaiff sgiliau digidol a data eu gwerthfawrogi
- mae gan weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru fwy o hyder a sgiliau wrth ddefnyddio technolegau digidol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus
- mae cyflogwyr yn cydnabod y gwerth y gall sgiliau a thechnolegau digidol ei gynnig ac maent yn buddsoddi yn anghenion eu gweithlu
- mae gan fusnesau yng Nghymru fynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt i allu arloesi, gwella a thyfu
- mae talent ddigidol yn cael ei datblygu a'i chadw ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru



## Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (CCDC) yn dwyn ynghyd sefydliadau o bob rhan o Gymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud Cymru yn genedl sy'n gynhwysol yn ddigidol. Gyda dros 100 o aelodau, mae'r Gynghrair yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cwmnïau'r sector preifat a'r byd academaidd, sydd oll yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb sy'n dymuno yng Nghymru yn gallu cael mynediad at offer a thechnolegau digidol a'u defnyddio yn eu bywydau bob dydd a bod ganddynt yr hyder i wneud hynny. Cyhoeddodd y Gynghrair agenda traws-sector ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru, 'O Gynhwysiant i Wydnwch', yn gynnar yn 2021.

Yn 2023, cyhoeddodd ail rifyn o'r Agenda hon, yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflawnwyd, y gwaith a wnaed, a'r newid mewn amodau ehangach.

Roedd yn nodi pum prif flaenoriaeth:

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** | Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector |
| **Blaenoriaeth 2** | Prif ffrydio cynhwysiant digidol mewn iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Blaenoriaeth 3** | Mynd i'r afael â thlodi data fel prif broblem |
| **Blaenoriaeth 4** | Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ôl-Covid |
| **Blaenoriaeth 5** | Pennu safon byw ddigidol ofynnol newydd a mabwysiadu dulliau cydgynhyrchu |

Y themâu trawsbynciol newydd oedd:

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** | Gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws pob sector |
| **Blaenoriaeth 2** | Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Blaenoriaeth 3** | Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol |
| **Blaenoriaeth 4** | Blaenoriaethu sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi |
| **Blaenoriaeth 5** | Rhoi safon byw digidol gofynnol newydd ar waith |

## Data: Cynhwysiant Digidol yng Nghymru

Mae amrywiaeth o ffynonellau data ar gyfer mesur lefel cynhwysiant data yng Nghymru, sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol inni ynglŷn â maint y broblem o allgáu digidol, pwy sydd angen cymorth wedi'i dargedu i fynd ar-lein, a hyder digidol mewn gwahanol gyd-destunau.

### Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-2023

Mae lefel yr allgáu digidol yng Nghymru yn uwch nag yng ngweddill y DU, gyda chymaint â 7% o'r boblogaeth, neu tua 170,000 o bobl, ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn debygol o fod yn:

**Oedolion hŷn:** Mae cyfran uwch o bobl wedi'u heithrio'n ddigidol ymhlith grwpiau oedran hŷn. Dim ond 41% o bobl dros 75 oed sydd â sgiliau digidol sylfaenol, o gymharu â 89% o bobl 16–49 oed. Fodd bynnag, nid yw oedolion hŷn yn grŵp homogenaidd. Er bod defnydd o'r rhyngrwyd yn cynyddu ymhlith oedolion hŷn, mae angen mwy o gefnogaeth uniongyrchol i wella sgiliau a hyder.

**Pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor:** Mae 90% o bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn defnyddio'r rhyngrwyd, o'i gymharu â 96% o'r rhai heb anabledd. Efallai y bydd angen cymorth ar bobl ag anableddau i nodi technolegau cynorthwyol priodol.

**Unigolion â chyrhaeddiad addysgol is:** Dangosodd 93% o'r rhai â chymwysterau ar lefel gradd neu uwch bob un o'r pum sgìl digidol o gymharu â 51% o'r rhai heb unrhyw gymwysterau. Efallai y bydd llawer yn elwa ar fwy o gymorth i fabwysiadu gwasanaethau digidol yn y lle cyntaf neu i ehangu'r ystod o wasanaethau a gweithgareddau y maent yn eu defnyddio ac yn cymryd rhan ynddynt ar-lein.

**Unigolion a theuluoedd incwm is:** Mae'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd (86%) na'r rhai mewn cyflogaeth (99%). Gall teuluoedd ac unigolion ag incwm is gael eu heffeithio gan fynediad at ddyfeisiadau a chysylltedd a'u fforddiadwyedd. Gan nad oes ganddynt, o bosibl, fynediad at ddyfeisiau a rhwydweithiau, efallai nad ydynt hefyd wedi datblygu gwybodaeth, cymhelliant na sgiliau digidol.

**Pobl mewn ardaloedd gwledig:** Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig nad ydynt ar-lein fel arfer yn cael eu hallgáu oherwydd problemau gyda darpariaeth band eang ddibynadwy neu briodol, ar gyfer gwasanaethau band eang llinell sefydlog a symudol, ar gyfer eu hanghenion. Ceir mannau digyswllt mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru o hyd, er bod nifer yr achosion o'r rhain yn lleihau yn ôl cyfranogwyr ein hastudiaeth achos.



**7% of adults in Wales are not online**

The level of digital exclusion in Wales is higher than in the rest of the UK, with as many as 7% of the population, or approximately 170,000 people, not using the internet.

**Pobl sy'n siarad Cymraeg ac eraill nad ydynt yn defnyddio Saesneg fel eu hiaith gyntaf:** Mae angen dylunio systemau digidol a'u prosesau cymorth cysylltiedig i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a siaradwyr ieithoedd lleiafrifol cyffredin. Mewn proses ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, dylid drafftio cynnwys Cymraeg ochr yn ochr â'r cynnwys Saesneg, nid dim ond ei gyfieithu.

**Pobl sy'n profi arwahanrwydd ac unigedd:** Gall allgáu digidol fod yn agwedd ar broblemau cymdeithasol eraill y mae unigolion yn eu hwynebu, er enghraifft, gall y rhai sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd hefyd gael eu hallgáu o ryngweithio digidol.

**Pobl sy'n profi digartrefedd:** Gellir tybio bod pobl ddigartref yn cael eu hallgáu yn sgil eu sefyllfa. Mae pobl sy'n profi digartrefedd, fodd bynnag, yn cynnwys grwpiau a allai fod yn 'syrffio soffas' neu mewn llety dros dro megis hosteli, y rhai nad oes ganddynt fynediad at gartrefi parhaol. Mae gan lawer o bobl yn y sefyllfaoedd hyn fynediad at ddyfeisiau symudol digonol ond gallant fod yn wynebu problemau o ran cysylltedd fforddiadwy yn hytrach na bod wedi'u hallgáu'n llwyr o wasanaethau digidol.



### Data a gasglwyd gan CDC

Mae Archwiliad Sgiliau Digidol sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Raglen CDC yn defnyddio'r Sgiliau Digidol Hanfodol fel fframwaith. Mae'r holiadur hwn yn dempled safonol sy'n cael ei anfon at sefydliadau er mwyn i'w staff a/neu wirfoddolwyr ei lenwi er mwyn asesu sgiliau'r rhai yn y sefydliad. Yn dilyn yr Archwiliad Sgiliau Digidol, mae CDC yn argymell hyfforddiant, cefnogaeth a gall ddarparu cyngor ac argymhellion ar gyfer meysydd i'w gwella y gall y sefydliad ei gymryd fel rhan o'i daith ddigidol.. Mae casglu data yn y modd hwn yn galluogi dull a yrrir gan ddata at gymorth, ac yn dileu'r siawns o gyflawni ar sail rhagdybiaeth. Mae defnyddio'r Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol, a fframweithiau Cymhwysedd Digidol, yn sefydlu dealltwriaeth lawer mwy manwl a dyfnach o'r cymorth sydd ei angen i sicrhau ein bod yn creu cenedl sy'n wirioneddol gynhwysol yn ddigidol. Mae'r graffiau hyn yn cynrychioli hyder pobl yn eu Sgiliau Digidol eu hunain, ynghyd â lleisiau pobl sydd â'r hyder i helpu eraill.

## Ein Heffaith

## Ers 2009

Mae 395,00 o bobl yng Nghymru wedi elwa oherwydd ein gwaith i ddod yn fwy medrus a hyderus yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein, cymorth drwy sefydliadau a chymorth uniongyrchol i gymunedau.


Mae cyfraddau allgáu digidol wedi gostwng o 39% i 7% o bobl 16+ oed yng Nghymru

Ledled Cymru, rydym wedi gweithio gyda staff a gwirfoddolwyr sy'n fodlon defnyddio eu hamser a'u sgiliau i helpu eraill.



## Hyder i Helpu Eraill


1-isel 5 yn uchel.




| |
|---|
| *Yn seiliedig ar 2257 o ymatebion |
| 1 – 276 (12.2%) |
| 2 – 268 (11.9%) |
| 3 – 725 (32.1%) |
| 4 – 605 (26.8%) |
| 5 – 383 (17%) |

## Eich Hyder Digidol Eich Hun

1-isel 5 yn uchel.




| |
|---|
| * Yn seiliedig ar 3486 o ymatebion |
| 1 – 232 (6.7%) |
| 2 – 498 (14.3%) |
| 3 – 1222 (35.1%) |
| 4 – 937 (26.9%) |
| 5 – 597 (17.1%) |

Darllenwch yr astudiaethau achos yma: Presenoldeb Gwerthfawr: Hyrwyddwyr Digidol yn y Fro (llyw.cymru)
Jane yn gwirfoddoli i helpu pobl hŷn i arbed arian ar-lein (llyw.cymru)
Jack, sy'n fyfyriwr, yn rhoi gwên ar wynebau pobl diolch i'w wirfoddoli digidol (llyw.cymru)





## Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru

Yn 2021, galwodd Cwmpas, fel rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, am sefydlu MDLS i Gymru. Byddai hon yn safon gytûn o'r hyn a olygir wrth gynwysoldeb digidol, sy'n cyd-fynd â'r Nodau Llesiant cenedlaethol. Byddai'n darparu dealltwriaeth fwy manwl o'r hyn sydd ei angen i allu mynd ar-lein yn hyderus ac yn ddiogel, yn ôl yr angen, a thu hwnt i'r ddau gategori o 'wedi'i gynnwys' neu 'wedi'i allgáu'. Mae'r diffiniad llafar cychwynnol o'r MDLS wedi'i gymryd o ymchwil peilot y DU a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield ac a ddarparwyd gan Good Things Foundation, a phrifysgolion Lerpwl, Loughborough a Safon Ofynol i Byw'n Ddigidol – Anghenion Digidol y DU ar gyfer yr 21ain Ganrif (mdls.org.uk) :

'Mae MDLS yn cynnwys bod â rhyngrwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu mwy na hynny hefyd. Mae'n ymwneud â gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.'

Gwyddom y byddai hon yn dasg gymhleth, ond drwy egwyddorion cyd-ddylunio ac ymgysylltu â dinasyddion, gellid cyflawni'r nod uchelgeisiol.

Yn 2022 cefnogodd Llywodraeth Cymru yr uchelgais hwn a chomisiynu ymchwil i MDLS Cymreig, a chyflawnwyd y prosiect gan Brifysgolion Lerpwl, Loughborough ac Abertawe ynghyd â GTF a Chwmpas.Mae'r MDLS yn ddiffiniad sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o'r hyn sy'n cyfrif fel cynhwysiant digidol neu allgáu digidol. Mae'r dull yn cymhwyso methodoleg yr Isafswm Safon Incwm i faterion cynhwysiant digidol, gan ddefnyddio dulliau cydgynghorol gydag aelodau'r cyhoedd i ddatblygu safon sy'n seiliedig ar gonsensws cyhoeddus ac sydd wedi'i gwreiddio ynddo. Gan ddilyn yr Isafswm Safon Incwm, mae'r MDLS yn gosod 'trothwy o ran cyfranogiad digidol', a ddiffinnir gydag aelodau o'r cyhoedd, fel lleiafswm nad oes gan aelwydydd bopeth sydd ei angen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd. Fel astudiaeth prawf o gysyniad, mae'r MDLS wedi canolbwyntio, i ddechrau, ar anghenion aelwydydd sydd â phlant trwy gyfres o grwpiau ffocws gyda rhieni a phobl ifanc i sefydlu'r hyn y maent yn ei feddwl sydd ei angen ar deuluoedd i gyrraedd y trothwy hwn. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau, cysylltiad rhyngrwyd yn ogystal â sgiliau.

Roedd y prosiect ymchwil yn cynnwys cyfres o weithgareddau ymchwil: ymgysylltu ag aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru; adolygiad llenyddiaeth; cyfweliadau ar-lein ac arolwg gyda rhanddeiliaid o bob rhan o dirwedd ddigidol Cymru. Cynhaliodd y tîm hefyd grwpiau ffocws cydgynghorol gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru i brofi ac archwilio perthnasedd diffiniad yr MDLS i Gymru, a chynnwys y safon honno ar gyfer aelwydydd trefol sydd â phlant, gan gynnwys ei pherthnasedd mewn ardaloedd gwledig.



'A Mae MDLS yn cynnwys bod â rhyngrwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu mwy na hynny hefyd. Mae'n ymwneud â gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.'

## Mewnwelediadau allweddol o'r ymchwil

### Mewnwelediad 1

Teimlai aelodau'r cyhoedd fod y diffiniad o'r MDLS a chynnwys y safon ar gyfer aelwydydd trefol sydd â phlant yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar rwystrau i ddiwallu'r anghenion hynny.

### Mewnwelediad 2

Croesawodd rhanddeiliaid yng Nghymru (ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol) y syniadau am feincnod cenedlaethol ar gyfer cynhwysiant digidol i Gymru. Roeddent yn teimlo y gallai hyn:

- gefnogi cydgysylltu ledled Cymru, gan annog Llywodraeth Cymru ac eraill i fentro mwy a chydweithio i gyrraedd safon o'r fath
- gwella a datblygu eu cynigion digidol fel sefydliadau sydd wedi'u lleoli neu'n gweithio yng Nghymru, gan gyfeirio mwy o adnoddau at gefnogi bywydau digidol y bobl y maent yn eu cefnogi
- atgyfnerthu ymrwymiad hirdymor i wella cydraddoldeb digidol yng Nghymru, gan hybu blaenoriaethu cynhwysiant digidol yn uwch ar yr agenda polisi a buddsoddiad

### Mewnwelediad 3

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r diffiniad o'r MDLS i Gymru. Nododd rhanddeiliaid feysydd allweddol i'w hystyried wrth fwrw ymlaen ag MDLS i Gymru:

- rhwystrau fforddiadwyedd, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw ar hyn o bryd
- rhwystrau seilwaith – seilwaith band eang a data symudol ond hefyd seilwaith ehangach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru (ond heb fod yn gyfyngedig i'r ardaloedd hyn)
- cydraddoldeb y Gymraeg mewn systemau, gwasanaethau, hyfforddiant a chymorth digidol
- gallu darparwyr a sefydliadau i helpu aelwydydd i gyrraedd y safon
- pwysigrwydd cydnabod, nodi a mynd i'r afael â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- nodi rolau ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, ac eraill, gan gynnwys dylanwadu ar y llywodraeth ganolog, rheoleiddwyr, a chwmnïau'r DU ar ran Cymru

Mae gweithredu'r MDLS ledled Cymru yn her gymhleth, ond mae'n hollbwysig er mwyn meithrin cenedl ddigidol gynhwysol a ffyniannus. Mae angen inni wneud hyn gyda'n gilydd; ni all unrhyw sector neu sefydliad unigol gyflawni hyn ar ei ben ei hun.




# Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

## Mae angen cysondeb ledled Cymru

Mae pobl nad ydynt yn gwybod ble y gallant fynd i gael cymorth wedi'i nodi fel un o'r prif rwystrau i gynhwysiant digidol, ac mae prosiectau blaenorol yn ogystal â gwaith diweddar y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi golygu anghysondebau ledled Cymru yn lefel y cymorth a ddarperir i gymunedau. Er ei bod yn hanfodol deall cyd-destunau lleol a sut maent yn effeithio ar y rhwystrau i gynhwysiant digidol, mae ymyriad cenedlaethol i sicrhau cysondeb o ran negeseuon a chymorth ynghylch cynhwysiant digidol yn bwysig.

## Mae Cynhwysiant Digidol yn gyfrifoldeb ar bawb

Mae'r data a gasglwyd gan CDC o Archwiliadau Sgiliau Digidol yn dangos nad yw hyder digidol yn rhywbeth deuaidd – gall pobl fod yn hyderus wrth gwblhau rhai tasgau, ond nid rhai eraill. Mae hyn yn golygu bod angen inni gydweithio i sicrhau bod gan bobl y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt ar draws gwahanol rannau o'u bywydau.




Ar draws sectorau, adrannau'r llywodraeth a rhannau o Gymru, mae angen i bawb sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan annatod o'u gwaith. Ni all cynhwysiant digidol fod yn gyfrifoldeb un person, tîm neu sefydliad yn unig, nac yn rhywbeth ychwanegol ar ddiwedd y broses o ddylunio gwasanaeth. Mae angen gwreiddio diwylliant o gynhwysiant digidol ym mhopeth y mae sefydliad yn ei wneud a'i wreiddio yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio, eu hariannu a'u gwerthuso. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell, llesiant gwell i bawb a buddsoddiad mwy cost-effeithiol.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi arwain y galwadau hyn, gan ddweud:

> *"Mae mynd i'r afael ag allgáu digidol o fudd i ni i gyd: mae'n fater i bawb. Wrth i dechnoleg barhau i ddatblygu'n gyflym ac wrth i'n hamgylchiadau'n newid, a ninnau mewn sefyllfa efallai o fod heb gymorth gan deulu, ffrindiau neu gyd-weithwyr, efallai y byddwn ni'n cael ein hallgáu'n ddigidol ryw ddydd ac mewn perygl o'r allgáu cymdeithasol sy'n dilyn hynny."*

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/2024/05/21/mae-mynd-ir-afael-ag-allgau-digidol-yn-fater-i-bawb-gan-helena-herklots-cbe-comisiynydd-pobl-hyn-cymru/



Ar draws sectorau, adrannau'r llywodraeth a rhannau o Gymru, mae angen i bawb sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan annatod o'u gwaith.



## Mae angen inni fynd â chymorth cynhwysiant digidol at y bobl

Rydym wedi dysgu llawer am sut i ymgysylltu â phobl i ddod yn rhan o'r broses ddigidol drwy ein prosiectau amrywiol dros y 18 mlynedd diwethaf. Mae angen inni gydweithio ar draws sefydliadau, sectorau a chyrff cyhoeddus i sicrhau ein bod yn cyrraedd pobl yn y ffordd fwyaf hygyrch bosibl. Fel rhan o'n prosiect Hyder Digidol Sir Ddinbych, rydym wedi gweld cleientiaid yn aml yn profi allgáu nad yw'n gyfyngedig i dechnoleg ddigidol yn unig. Nid yw rhai yn gallu cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth oherwydd nad oes ganddynt y cysylltedd na'r sgiliau digidol sydd eu hangen i wneud y gorau o'r cyfleoedd hynny.

Gyda chleientiaid hŷn, gwelwn yn aml eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu o agweddau mawr ar gymdeithas fodern gan nad oes ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyfathrebu â ffrindiau a theulu ar-lein. Mae hyn hyd yn oed yn fwy amlwg gyda chleientiaid sydd wedi colli anwyliaid neu y mae eu teuluoedd yn byw yn rhy bell i ffwrdd iddynt allu ymweld â nhw'n rheolaidd. Rydym wedi cael llawer o gleientiaid sydd wedi defnyddio'r sesiynau galw heibio a'r gweithdai yn rhannol, o leiaf, i gymdeithasu a delio â'u hunigrwydd eu hunain. I fod yn genedl sy'n wirioneddol gynhwysol yn ddigidol, mae angen inni fynd â chymorth at y bobl, lle maent yn byw.

Mae Mair wedi mynychu nifer o sesiynau galw heibio digidol a gweithdai ers mis Ionawr 2024. Erbyn mis Ebrill, roedd hi'n teimlo'n ddigon cyfforddus i ymuno â'n Cwrs Sgiliau Digidol Hanfodol yn Hwb Dinbych, ac fe wnaeth hi hefyd gwblhau a derbyn tystysgrif ar ei gyfer. Dyma beth oedd gan Mair i'w ddweud am ei phrofiad yn cael ei gefnogi gennym ni yn Hyder Digidol Sir Ddinbych. Hyder Digidol Sir Ddinbych / Digital Confidence Denbighshire – Astudiaeth Achos / Case Study (Mair) – YouTube

## Mae hyder digidol yn fwy na dim ond cynhwysiant ac allgáu

Mae p'un a yw rhywun yn gwbl hyderus i gymryd rhan yng nghymdeithas ac economi ddigidol y byd cyfredol yn fwy na dim ond cwestiwn ag iddo ateb ie/na. Mae gan rai pobl y sgiliau, yr hyder, yr adnoddau a'r cysylltedd i wneud rhannau o'r hyn sydd ei angen arnynt, ond nid popeth. Yn ogystal, mae technoleg yn datblygu mor gyflym fel y gall pobl sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol ddisgyn yn ôl i gael eu hallgáu'n ddigidol dros amser. Bydd bod yn genedl sy'n gynhwysol yn ddigidol bob amser yn golygu darparu'r cymorth sydd ei angen ar gymunedau.


Lle mae data ar gael, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022 yn amlinellu nad oes gan 22% o Oedolion ar-lein yr holl Sgiliau Digidol Hanfodol; mae hyn yn golygu bod angen sicrhau nad yw defnyddwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar hyn o bryd yn cael eu gadael ar ôl gyda chyflymder y newid mewn byd digidol sy'n newid yn barhaus. Pan ystyriwn y ddwy elfen o bobl yn cael eu hallgáu'n ddigidol, mae 7% o'r boblogaeth oedolion yn gynwysedig, ond pan ystyriwch sgiliau swyddogaethol ar gyfer gallu cynnal trafodion ar-lein, nid yw 11% o'r bobl a holwyd gan CDC yn gallu gwneud hyn. Mae hyn yn creu rhwystrau i bobl allu cynilo/rheoli eu harian ar-lein sy'n golygu eu bod yn colli allan ar fargeinion 'ar-lein yn unig'.



Wrth ystyried sgiliau penodol sy'n rhan o'r fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol, trin gwybodaeth a chynnwys, sydd â chyfartaledd uwch na'r ffigurau Wedi'i allgáu / Wedi'i Gynnwys, mae'n dangos bod angen ystyried grymuso pobl i feddu ar Sgiliau Digidol cyflawn.


Mae prosiect Hyder Digidol Sir Ddinbych wedi denu nifer uchel o gleientiaid yn dychwelyd i weithdai pellach a chyrsiau hyfforddi yn barhaus. Mae'n amlwg nad yw hyder digidol yn rhywbeth y mae unigolyn yn ei ennill dros weithdy dwy awr ond, yn hytrach, yn rhywbeth sy'n dod gyda chysondeb o gymorth dibynadwy a chyfle i roi cynnig ar y dechnoleg mewn lleoliad diogel a chefnogol. Mae'r nifer uchel o gleientiaid sy'n dychwelyd y mae'r prosiect hwn yn eu cefnogi yn arwydd o'r gwerth y maent yn ei roi ar yr hyfforddiant a'r cymorth y maent wedi'u derbyn hyd yma.

## Y gallu i arbed arian ar-lein




| | |
|---|---|
| | *Yn seiliedig ar 2165 o ymatebion |
| ● | Ie – 1817 (84%) |
| ● | Na – 243 (11%) |
| ● | Gyda help – 20 (1%) |
| ● | Eisiau dysgu – 85 (4%) |

## Y gallu i reoli gwybodaeth a chynnwys




| | |
|---|---|
| | *Yn seiliedig ar 2143 o ymatebion |
| ● | Ie – 1654 (77%), |
| ● | Na – 245 (11%), |
| ● | Gyda help – 26 (1%), |
| ● | Eisiau dysgu – 218 (10%). |

## Mae angen cymorth wedi'i dargedu arnom

Mae angen cymorth wedi'i dargedu ar bobl sydd â nodweddion penodol neu o gymunedau penodol. Er bod 93% o oedolion yng Nghymru bellach yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae'r 7% sy'n weddill wedi parhau i fod wedi'u hallgáu dros nifer o flynyddoedd. Mae angen ymyriadau penodol, arbenigol er mwyn cyrraedd y bobl hyn. Mae CDC yn gweithio yn ôl thema, gan ddarparu cymorth â ffocws priodol i unigolion er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl. Rydym wedi gweithio ledled Cymru ac ar draws Sectorau i ddatblygu'r dull thematig hwn o gefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Darllenwch ein hastudiaethau achos yma:

Grŵp Cynefin (llyw.cymru)


Anabledd-Dysgu-Cymru.pdf (llyw.cymru)

Fy nghariad at y Cyfryngau Cymdeithasol a sut mae bod ar-lein yn cefnogi fy nyfodol – Stori Melissa (llyw.cymru)

Yn gynharach eleni, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymo i gefnogi gwaith penodol pellach ar gynhwysiant digidol gyda'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n rhan o raglen CDC o 1 Ebrill 2024. Gobeithiwn y gall hyn arwain at cyllid ar gyfer ragor o gymorth wedi'i dargedu i gymunedau eraill yn y dyfodol.

Wrth ddarparu cymorth i gymunedau ledled Cymru, gallwn sicrhau ein bod yn estyn allan at bobl i roi'r wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cymorth iddynt wella eu sgiliau a'u hyder mewn meysydd sy'n bwysig iddynt. Os ystyriwn iechyd a lles, mae'r byd digidol yn chwarae rhan fwyfwy sylweddol mewn Trawsnewid Iechyd Digidol, ond nid oes gan 33% o'r bobl a holwyd y sgiliau na'r hyder i ymgysylltu ag offer Iechyd a Lles Digidol.

**Y gallu i reoli iechyd a lles gan ddefnyddio offer digidol**




*Yn seiliedig ar 1299 o ymatebion

- Ie – 812 (63%)
- Na – 430 (33%)
- Gyda help – 13 (1%)
- Eisiau dysgu – 44 (3%)



**Mae cynhwysiant digidol yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau effeithiol sydd wedi'u trawsnewid yn ddigidol.**

Mae'r achos busnes dros drawsnewid gwasanaethau'n ddigidol yn gofyn am fuddsoddi mewn cynhwysiant digidol a'i flaenoriaethu o'r cychwyn cyntaf. Ni ellir cyflawni'r arbedion cost a'r gwerth ychwanegol a ddarperir gan drawsnewid digidol yn llawn os nad yw'r rhai sydd fwyaf angen gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael gafael arnynt, ac angen gwasanaethau ychwanegol, neu'n cael eu gadael ar ôl. Mae buddsoddi mewn cynhwysiant digidol a'i gael ar flaen y gad o ran strategaeth drawsnewid yn ataliol ac yn rhan allweddol o adeiladu cymunedau mwy gwydn.

Mae llawer o waith da i adeiladu arno. Yn ddiweddar, dyfarnwyd Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac mae'n arwain y ffordd yn ei ymrwymiad i brif ffrydio ac ymgorffori cynhwysiant digidol i sicrhau nad oes neb yng Nghymru yn cael ei adael ar ôl.[1]

Mae'r adroddiad Cymru Can, Strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023-2030 yn amlinellu'r angen i sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol y Sgiliau a'r galluoedd digidol i ymateb i dueddiadau'r dyfodol. Gyda phobl ifanc a menywod yn wynebu'r perygl mwyaf i effeithiau awtomeiddio yn y dyfodol, mae angen inni wneud yn siŵr bod cenedlaethau'r dyfodol wedi'u harfogi'n briodol â'r Sgiliau Cynhwysiant Digidol i adeiladu cenedl gydnerth a chyfartal o ddefnyddwyr digidol cymwys.[2]



[1] https://dhcw.nhs.wales/news/latest-news/dhcw-awarded-digital-inclusion-charter-achreditation-after-exmplary-approach/

[2] 2023-11-20-Strategy-Cymraeg.pdf

# Beth nesaf?

Yn dilyn y dysgu rydym wedi amlinellu yn yr adroddiad hwn, ar ôl blynyddoedd o weithio ar gynhwysiant digidol yng Nghymru, rydym yn cyflwyno pump argymhelliad penodol ar gyfer ddatblygwyr polisi. Nid yw'r argymhellion hyn ar gyfer un adran lywodraethol benodol, ond ar gyfer pawb. Rhaid i ni i gyd gymryd cyfrifoldeb i ddod â'r allgáu digidol i ben.

Nid yw allgáu digidol yn broblem unigryw – mae'n un o heriau di-rif sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru sydd â lefelau annerbyniol o dlodi. Mae'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol, ac mae llawer o straeon am deuluoedd yn gorfod dewis rhwng data, gwresogi a bwyd. Mae dod â thlodi i ben yng Nghymru yn golygu cefnogi pawb i fynd ar-lein pan fydd angen iddynt wneud hynny, yn hyderus ac yn ddiogel.

Rhaid i ddigidol fod yn ganolog i'n gweledigaeth o Gymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ganolog i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru).

Mae systemau iechyd yn symud yn gynyddol tuag at ddigidol, fel trwy Ap GIG Cymru. Er bod manteision clir i hyn, mae anghydraddoldebau digidol a chymdeithasol presennol yn peryglu gwaethygu anghydraddoldebau iechyd ymhellach. Gallai hyn arwain at raniad iechyd digidol a ddeddf gofal gwrthgyfartal.

Mae angen i'r cenedlaethau iau feddu ar y sgiliau ymarferol a swyddogaethol ar gyfer defnyddio dyfeisiau digidol a chyfrannu ar-lein. Rhaid i'r system addysg fod ar flaen y gad wrth gyrraedd teuluoedd sydd fwyaf mewn perygl o dlodi data ac allgáu digidol, i'w galluogi i gael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn ein cymdeithas ddigidol.

Rydym yn deall y pwysau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, ond nid yw'n amser i dorri'n ôl ar gynhwysiant digidol nawr. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan The Good Things Foundation yn awgrymu bod am bob £1 a fuddsoddir mewn ymyriadau i alluogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i adeiladu sgiliau digidol sylfaenol, mae £9.48 yn cael ei ennill trwy'r economi. Mae hyn yn ychwanegol at yr arbedion posibl ar draws iechyd ac adrannau llywodraeth eraill. Mae arian a fuddsoddir mewn rhaglen cynhwysiant digidol newydd y tu hwnt i 2025 yn gwneud synnwyr busnes.[3]

[3] Good Things Foundation publishes report on investment in digital inclusion - htn





## Argymhellion

Gan ystyried y themâu trawsbynciol hyn, rydym yn cyflwyno'r argymhellion canlynol:

1. **Ymrwymo i gyllid chwe blynedd ar gyfer rhaglen genedlaethol cynhwysiant digidol a fydd yn:**

- Darparu cymorth uniongyrchol, targedig i'r 7% o bobl sydd dal wedi'u hallgáu'n ddigidol, a'r rhai nad oes ganddynt y pum sgil hanfodol digidol. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol bod cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio, wedi'i brif ffrydio ac yn eiddo i sefydliadau a chymunedau ledled Cymru.
- Darparu'r cymorth, cydweithrediad, a chynyddu i sefydliadau a grwpiau cymunedol i sefydlu agenda sgiliau digidol a chynhwysiant prif ffrwd, sy'n gyfrifoldeb i bawb yng Nghymru.

Bydd ymrwymiad hirdymor i gyllido cynhwysiant digidol, er budd pob adran lywodraethol, yn sicrhau y bydd y prosiect yn gallu canolbwyntio ar gyflwyno, datblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau, ac addasu i'r amgylchedd digidol sy'n esblygu mewn ffordd sy'n cael ei yrru gan angen, nid gofynion cyllid.

2. **Gweithredu canfyddiadau'r peilot ymchwil Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ac ehangu i bob cartref yng Nghymru**

Rhaid i ni weld gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol mewn ffordd sy'n cael effaith ar gymunedau ac yn hygyrch i'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Ni ddylai unrhyw gartref yng Nghymru fod o dan drothwy'r SOBD. Mae angen strategaethau, polisïau a chamau gweithredu traws-sector effeithiol sydd wedi'u datblygu gyda'i gilydd gydag ymrwymiad ariannol a gwleidyddol i gyflawni'r weledigaeth hon.

Dylai creu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer cartrefi gyda phlant fod yn gatalydd i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil pellach i ddeall goblygiadau'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar amrywiaeth o gartrefi a chymunedau sy'n wynebu allgáu digidol yng Nghymru.

3. **Rhaid parhau â chyllido Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru i sicrhau ei gynaliadwyedd a'i alluogi i ystyried opsiynau ar gyfer pontio i ffynonellau cyllido amgen, os bydd angen hynny yn y dyfodol.**

Mae'r Gynghrair wedi bod yn ased allweddol wrth sicrhau lle ar gyfer rhwydweithio cyfoedion, casglu data a rhannu profiadau, gan feithrin newid ystyrlon ar draws sectorau. Mae'n tyfu i fod yn ganolfan ddylanwadol i gefnogi sefydliadau, mawr a bach, i gyflwyno cynhwysiant digidol yn systematig ledled y wlad ac rydym yn dymuno gweld mwy o sefydliadau yn ymuno â'r rhwydwaith yn y cam nesaf.




cwmpas

4. **Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu partneriaethau strategol gyda'r diwydiant technoleg i gefnogi rhaglen Cynhwysiant Digidol estynedig.**

Mae gan bartneriaid diwydiant rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi Cymru i ddod yn genedl gynhwysol yn ddigidol gan sicrhau bod pob rhwystr i gynhwysiant digidol yn cael ei oresgyn, gan gynnwys gwella mynediad, sgiliau a hyder.

5. **Dylai pob rhaglen trawsnewid digidol yn y dyfodol gynnwys canran o'u cyllid ar gyfer Cynhwysiant Digidol.**

Fel yr ydym wedi dangos yn yr adroddiad hwn, mae'r achos busnes dros Ddulliau Trawsnewid Digidol yn gofyn am fuddsoddiad mewn cynhwysiant digidol. Heb hyn, mae'n peryglu eithrio dinasyddion rhag gwasanaethau hanfodol, gan effeithio'n negyddol ar les ac yn cynyddu costau yn y tymor hir. Drwy ofyn i bolisi a rhaglenni trawsnewid digidol ddyrannu cyllid i fentrau cynhwysiant digidol, rydym yn sicrhau bod arferion cynhwysol yn cael eu hymgorffori drwy gydol y broses drawsnewid.



Fel yr ydym wedi dangos yn yr adroddiad hwn, mae'r achos busnes dros Ddulliau Trawsnewid Digidol yn gofyn am fuddsoddiad mewn cynhwysiant digidol.



cwmpas

I drafod ein gwaith ar gynhwysiant digidol, neu i ddarganfod sut y gallwn eich cefnogi chi neu eich sefydliad, cysylltwch â Cwmpas ar:


**0300 111 5050**
**info@cwmpas.coop**
**cwmpas.coop**



Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, fel print bras neu braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.